Fersiwn	3
Dyddiad Diwygio Diwethaf	Mawrth 2021

Iechyd a Diogelwch
Cyngor Rhondda Cynon Taf, gweithio gyda chi, gweithio gyda'n gilydd

gweithio'nwell
workwell

Health and Safety
Rhondda Cynon Taf Council, working with you, working together

HS 20

Polisi Diogelwch Tân

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg
This document is available in English (Fire Policy)

RHONDDA CYNON TAF

RHEOLI'R DDOGFEN	
ENW'R POLISI	**Polisi Diogelwch Tân**
Adran	Adnoddau Dynol
Rhif Ffôn	01443 425536
Dyddiad Cychwynnol Cyflwyno'r Polisi	Hydref 2017
Swyddog Diwygio	Mike Murphy
Dyddiad Diwygio	Mai 2023
Dyddiad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	11 Medi 2017

HANES DIWYGIO	
Dyddiad:	Diwygiwyd gan:
Hydref 2019	Mike Murphy
Mawrth 2021	Mike Murphy

CYMERADWYO'R DDOGFEN	
Mae'r ddogfen yma wedi cael ei chymeradwyo gan:	Dyddiad cymeradwyo:
Uwch Reolwyr Adnoddau Dynol	18 Gorffennaf 2017
Uwch Reolwyr y Cyngor	04 Hydref 2017

CYNNWYS

1. Cyflwyniad 1

2. Datganiad Polisi..... 1

Canllawiau Polisi

3. Diogelwch Tân – Asesiadau Risg 3

4. Offer, Dyfeisiau a Systemau Diogelwch Tân, ac ati. 4

5. Digwyddiadau sy'n ymwneud â thân..... 5

6. Gweithdrefnau Diogelwch Tân..... 6

7. Gwybodaeth, Cyfarwyddyd a Hyfforddiant.....**Error! Bookmark not defined.**

8. Dyletswyddau Gweithwyr..... 7

9. Cofnodion 8

10. Cyngor..... 9

Rhestr Wirio Rheolwyr Safle/Adeilad……...10

1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r polisi yma wedi cael ei baratoi o ganlyniad i'r gofynion cyfreithiol sydd wedi'u nodi yng Ngorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005. Cyfeirir at hyn fel 'y Gorchymyn' yn y polisi yma o hyn allan.

1.2 Yn y polisi yma, mae 'eiddo' yn golygu safleoedd ac adeiladau, gan gynnwys unrhyw ran o safle neu adeilad y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdano.

2. DATGANIAD POLISI

2.1 Datganiad o fwriad y Cyngor, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, yw atal tân mewn unrhyw eiddo yn y lle cyntaf, a rhoi mesurau ar waith i sicrhau diogelwch ei weithwyr ac unrhyw ymwelwyr mewn achos o dân.

2.2 Mae'r Cyngor yn bwriadu cyflawni hyn trwy gydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y Gorchymyn a fydd, ar gyfer pob eiddo, yn cynnwys:

- rhoi'r rhagofalon yma yn eu lle:

  - mesurau i leihau'r risg o dân, gan gynnwys y risg o losgi bwriadol;
  - mesurau i leihau'r risg y bydd tân yn ymledu;
  - mesurau mewn perthynas â dulliau dianc;
  - mesurau ar gyfer sicrhau y bydd modd defnyddio'r dulliau dianc yn ddiogel ac yn effeithiol ar bob adeg berthnasol;
  - mesurau mewn perthynas â dulliau diffodd tanau;
  - mesurau mewn perthynas â dulliau canfod tanau a rhoi rhybudd mewn achos o dân;
  - mesurau mewn perthynas â'r trefniadau ar gyfer y camau bydd angen eu cymryd mewn achos o dân, gan gynnwys:
    (i) mesurau sy'n ymwneud â chyfarwyddo a hyfforddi gweithwyr; a
    (ii) mesurau i liniaru effeithiau tân.

- cynnal asesiadau risg 'diogelwch tân' addas a digonol;

- gwneud a gweithredu trefniadau diogelwch tân priodol;

- lle bo angen, dileu neu leihau'r risgiau sy'n ymwneud â sylweddau peryglus, a sefydlu a gweithredu mesurau brys ychwanegol;

- lle bo angen, gosod offer diffodd tân priodol a synwyryddion tân a larymau yn yr eiddo;
- darparu a chynnal llwybrau ac allanfeydd brys priodol sydd ag arwyddion clir, a'u goleuo lle bo angen;
- sefydlu a gweithredu (lle bo angen) gweithdrefnau priodol ar gyfer perygl difrifol ac uniongyrchol ac ardaloedd peryglus;
- sicrhau bod yr eiddo ac unrhyw gyfleusterau, offer a dyfeisiau sydd wedi'u darparu mewn perthynas â diogelwch tân yn cael eu cynnal a'u cadw yn rheolaidd fel eu bod nhw'n gweithio yn effeithlon ac mewn cyflwr da;
- penodi un neu ragor o bobl gymwys i gynorthwyo ynghylch cyflawni'r mesurau ataliol ac amddiffynnol sydd wedi'u pennu, yn ôl yr angen;
- rhoi gwybodaeth ddealladwy a pherthnasol i gyflogwyr y gweithwyr hynny sy'n gweithio yn, neu ar, yr eiddo, mewn perthynas â'r risgiau a'r mesurau ataliol ac amddiffynnol sydd wedi'u rhoi ar waith;
- rhoi gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant diogelwch tân addas a digonol i'r rheiny sy'n gweithio yn yr eiddo;
- sicrhau bod yr unigolyn sy'n gyfrifol am ddiogelwch tân yn y Cyngor yn cydweithredu ac yn cydlynu ag unrhyw unigolyn sydd wedi'i benodi gan sefydliad arall os yw'r Cyngor yn rhannu'r eiddo hwnnw â sefydliad arall.

2.3 Rhaid i Gyfarwyddwyr Cyfadran perthnasol sicrhau bod rheolwr safle neu adeilad, fel y bo'n briodol, yn cael ei benodi i gymryd cyfrifoldeb am drefniadau diogelwch tân ar gyfer pob eiddo (os oes angen, mewn ymgynghoriad â Chyfarwyddwyr Cyfadran eraill, er enghraifft, pan fydd gwasanaethau sy'n perthyn i wahanol gyfadrannau yn gweithio yn yr un adeilad).

Mewn ysgol, yr unigolyn sy'n gyfrifol am ddiogelwch tân yw'r Pennaeth.

2.4 Pob Cyfarwyddwyr neu bob Pennaeth Gwasanaeth unigol sy'n gyfrifol am roi gofynion y polisi ar waith ac am baratoi strategaeth weithredu.

CANLLAWIAU POLISI

3. DIOGELWCH TÂN – ASESIADAU RISG

3.1 Yn rhan o'r broses o sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y Gorchymyn fel sydd wedi'i nodi ym mharagraff 2.2, bydd y Cyngor yn trefnu bod unigolyn cymwys ym mhob eiddo yn cynnal asesiadau risg diogelwch tân addas a digonol a bod yr eiddo yn cael ei ailasesu o bryd i'w gilydd yn ôl yr angen.

Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod yr holl faterion diogelwch tân yn cael eu hasesu'n briodol a, lle bo angen, bod unrhyw welliannau gofynnol yn cael eu nodi a'u gweithredu.

3.2 Er mwyn sicrhau bod yr asesiadau risg yn addas ac yn ddigonol, bydd y Cyngor yn cyflogi ymgynghorydd arbenigol i ymgymryd â nhw a, lle bo angen, eu hailasesu o bryd i'w gilydd.

Bydd y Cyngor, mewn ymgynghoriad â'r ymgynghorydd arbenigol, yn pennu'r cyfnod priodol rhwng yr asesiad risg cychwynnol a'r ailasesiadau cyfnodol arfaethedig ar gyfer unrhyw eiddo penodol.

3.3 Adran Cynnal a Chadw Corfforaethol y Cyngor sy'n gyfrifol am benderfynu pa ymgynghorydd arbenigol i'w gyflogi i gynnal asesiadau/ailasesiadau, ac am benodi'r ymgynghorydd hwnnw, trefnu'r holl fanylebau contract angenrheidiol a'r dogfennau cysylltiedig a monitro cydymffurfiad â chontractau.

3.4 Cyn gwneud penderfyniad ynghylch pa ymgynghorydd arbenigol i'w gyflogi i gynnal asesiadau/ailasesiadau, bydd y swyddog/swyddogion perthnasol yn yr Adran Cynnal a Chadw Corfforaethol yn ymgynghori â Charfan Iechyd a Diogelwch Corfforaethol y Cyngor.

3.5 Rheolwyr safleoedd/adeiladau sy'n gyfrifol am sicrhau bod asesiad risg wedi cael ei gynnal yn yr adeilad a bod ailasesiadau cyfnodol yn cael eu cynnal ar yr adeg ofynnol, gan gysylltu â'r Adran Cynnal a Chadw a/neu'r ymgynghorydd arbenigol lle bo angen.

3.6 Bydd rheolwyr safle/adeilad yn cysylltu â'r ymgynghorydd asesiadau risg ynghylch gweithdrefnau diogelwch y mae rhaid i aseswyr yr ymgynghorydd eu dilyn tra byddan nhw ar y safle / yn yr adeilad.

3.7 Ar ôl cwblhau'r asesiad risg ar gyfer ei eiddo, rhaid i reolwr y safle/adeilad baratoi cynllun gweithredu wedi'i flaenoriaethu (lle bo angen, mewn ymgynghoriad â swyddogion technegol yn yr Adran Cynnal a Chadw) gan nodi unrhyw ddyletswyddau gwaith/rheoli y

mae'n ofynnol eu cyflawni, enwau unigolion neu adrannau sydd â'r cyfrifoldeb am eu cwblhau, amserlenni lle bo hynny'n berthnasol, ac ati.

Cyfrifoldeb y rheolwr safle/adeilad yw sicrhau bod y camau gofynnol yn cael sylw a bod yr asesiad risg ar y we yn cael ei ddiweddaru.

Mae'r system cofnodi asesiadau risg ar y we sy'n cael ei defnyddio gan yr ymgynghorydd arbenigol sy'n cael ei gyflogi gan y Cyngor ar hyn o bryd yw'r System Rheoli Gwybodaeth Asesiad Risg neu RAMIS.

3.8 Rhaid i reolwyr safle/adeilad hysbysu'r ymgynghorydd asesu risg am unrhyw newid sylweddol i'w heiddo a allai effeithio ar yr asesiad risg ac a allai ofyn am ailasesiad cyn unrhyw ddyddiad ailasesu cyfnodol arfaethedig.

Enghreifftiau o newidiadau sylweddol yw estyniad i adeilad, newidiadau i gynllun mewnol adeilad, newid o ddefnydd neu gynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n gweithio yn yr adeilad.

3.9 Rhaid i reolwyr safle/adeilad adolygu'r asesiad risg yn flynyddol gan ddefnyddio'r ffurflen berthnasol, a ffeilio'r ffurflen yn briodol ar RAMIS.

3.10 Rhaid i reolwyr safle/adeilad hysbysu'r sawl sy'n gweithio yn yr adeiladau, yn ogystal ag unrhyw ymwelwyr, am unrhyw risgiau sylweddol y mae'r asesiad risg wedi'u hamlygu.

3.11 Os yw'r Cyngor yn rhannu'r adeilad, rhaid i reolwr y safle/adeilad hysbysu unrhyw unigolion sy'n gyfrifol am rannau eraill o'r eiddo am unrhyw ganfyddiadau pwysig a allai effeithio ar y rhannau eraill.

4. OFFER, DYFEISIAU A SYSTEMAU DIOGELWCH TÂN, AC ATI

4.1 Bydd y Cyngor yn cyflogi contractwyr arbenigol i osod yr holl offer, dyfeisiau a systemau diogelwch tân, gan gynnwys arwyddion, sy'n angenrheidiol yn ôl yr asesiad risg.

4.2 Bydd y Cyngor yn cyflogi contractwyr arbenigol i brofi, cadw a chynnal yr holl offer, dyfeisiau a systemau diogelwch tân priodol sydd wedi'u gosod mewn adeilad yn unol â'r holl ofynion statudol. Bydd hynny'n cynnwys arwyddion wedi'u goleuo er mwyn sicrhau eu bod nhw'n effeithlon ac mewn cyflwr da.

4.3 Adran Cynnal a Chadw Corfforaethol y Cyngor sy'n gyfrifol am benderfynu pa ymgynghorydd arbenigol i'w gyflogi i osod a/neu brofi, cynnal a chadw'r offer, dyfeisiau a systemau diogelwch tân ac am ei benodi. Bydd yr Adran yma hefyd yn gyfrifol am drefnu'r holl fanylebau

contract, am baratoi'r dogfennau cysylltiedig ac am fonitro cydymffurfiaeth.

4.4 Rhaid i reolwyr safle/adeilad fonitro i sicrhau bod y contractwyr arbenigol yn cynnal y profion a'r gwaith cynnal a chadw angenrheidiol mewn perthynas â'r holl offer, dyfeisiau a systemau diogelwch tân. Rhaid iddyn nhw hefyd sicrhau bod cofnodion o hyn yn cael eu cadw yn y llyfr cofnodi materion tân a/neu ar RAMIS.

4.5 Rhaid i reolwyr safle/adeilad sicrhau bod yr holl wiriadau/profion mewnol angenrheidiol perthnasol yn cael eu cynnal a bod cofnodion o hyn yn cael eu cadw yn y llyfr cofnodi materion tân a, lle bo hynny'n briodol, ar RAMIS.

Wrth gynnal gwiriadau/profion mewnol, rhaid sicrhau hefyd bod:

- llwybrau dianc yn cael eu cadw'n glir rhag rhwystrau a bod modd eu defnyddio'n hawdd mewn achos o dân;
- unrhyw ddyfeisiau sydd wedi'u gosod ar ddrysau tân, er enghraifft, dyfeisiau sy'n cadw'r drws ar agor, yn gweithio'n iawn;
- mecanweithiau cloi'r allanfeydd terfynol, megis bolltau panig a'r rheiny sy'n agor drysau yn electronig, yn gweithio'n iawn.

4.6 Pan fydd gwiriadau/profion yn nodi nam, rhaid i reolwyr safle/adeilad gymryd camau priodol i unioni'r nam a chofnodi manylion y camau sydd wedi'u cymryd yn y llyfr cofnodi materion tân a, lle bo hynny'n briodol, ar RAMIS.

Dylid ystyried galwadau diangen yn nam.

4.7 Pan fydd rheolwyr safle/adeilad yn dirprwyo'r ddyletswydd i gynnal gwiriadau/profion diogelwch tân mewnol i weithwyr eraill, rhaid iddyn nhw fonitro i sicrhau bod y gwiriadau/profion hynny yn cael eu cynnal yn iawn a bod y manylion yn cael eu nodi yn y llyfr cofnodi materion tân a, lle bo'n briodol, ar RAMIS.
Yn ogystal â chynnal gwaith monitro o'r fath, rhaid i reolwyr safle/adeilad ddarparu tystiolaeth eu bod nhw'n gwneud hynny (un ffordd o ddarparu tystiolaeth o fonitro fyddai llofnodi'r daflen berthnasol yn y llyfr cofnodi materion tân).

5. DIGWYDDIADAU SY'N YMWNEUD Â THÂN

5.1 Rhaid i reolwyr safle/adeilad roi gwybod i'r swyddogion perthnasol yn yr Adran Cynnal a Chadw Corfforaethol a hefyd i Garfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â thân, a hynny drwy ddefnyddio HS(A), sef Ffurflen Cofnodi Digwyddiadau, Damweiniau ac Anafiadau y Cyngor.

6. GWEITHDREFNAU DIOGELWCH TÂN

6.1 Rhaid i reolwyr safle/adeilad sicrhau bod gweithdrefnau diogelwch tân addas, gan gynnwys cynllun gwacáu, yn cael eu datblygu a'u gweithredu.

Rhaid i weithdrefnau tân fod yn addas ar gyfer yr eiddo penodol ac ystyried canfyddiadau'r asesiad risg diogelwch tân.

6.2 Os oes unigolion yn yr adeilad sydd angen cymorth i adael (er enghraifft, pobl anabl â phroblemau symudedd a phroblemau synhwyraidd), rhaid i reolwyr sicrhau bod Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng yn cael eu paratoi ar eu cyfer nhw. Rhaid i hyn gynnwys gweithwyr parhaol ac ymwelwyr.

6.3 Rhaid i gynlluniau gwacáu, gan gynnwys y rhai ar gyfer pobl anabl, beidio â dibynnu ar gymorth y Gwasanaeth Tân ac Achub i fod yn effeithiol.

6.4 Rhaid i reolwyr safle/adeiladau sicrhau bod gweithdrefnau diogelwch tân yn cael eu dogfennu a bod copïau'n cael eu cadw yn y llyfr cofnodi materion tân.

6.5 Rhaid i reolwyr safle/adeilad sicrhau bod gweithdrefnau diogelwch tân yn cael eu dwyn i sylw'r sawl sy'n defnyddio eu hadeiladau. Gall y rhain fod yn weithwyr parhaol, ymwelwyr a chontractwyr.

Gall arddangos gwybodaeth am gamau gweithredu mewn achos o dân mewn lleoliadau strategol yn yr adeilad gynorthwyo i hysbysu pobl, yn enwedig pobl sydd ddim yn weithwyr, am y gweithdrefnau tân perthnasol. Rhaid i unrhyw hysbysiadau o'r fath fod yn gyson o ran yr wybodaeth sy'n cael ei darparu a nodi'r camau gweithredu cywir ar gyfer yr eiddo.

6.6 Os yw'r Cyngor yn defnyddio rhan o adeilad a gall y camau gweithredu mewn achos o dân effeithio ar unigolion sydd yn y rhannau eraill (er enghraifft, os bydd angen defnyddio'r un llwybrau dianc), rhaid i'r rheolwr safle/adeilad gydweithio a chydlynu ag unrhyw unigolion eraill sy'n gyfrifol am rannau eraill yr eiddo.

6.7 Fydd dim disgwyl i weithwyr geisio diffodd tân oni bai ei bod hi'n ddiogel gwneud hynny a'u bod wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio offer diffodd tân, neu os oes angen iddyn nhw wneud hynny i ddianc o adeilad.

Rhaid i weithwyr beidio â rhoi eu hunain mewn perygl i ddiffodd tân - rhaid i'w diogelwch personol fod yn flaenoriaeth bob amser.

7. DIOGELWCH TÂN - GWYBODAETH, CYFARWYDDYD A HYFFORDDIANT

7.1 Rhaid i reolwyr safle/adeilad sicrhau bod gweithwyr sydd wedi'u lleoli yn eu hadeiladau yn cael yr holl wybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant angenrheidiol, a bod cofnodion o hynny yn cael eu cadw yn y llyfr cofnodi materion tân.

Rhaid i'r hyfforddiant sy'n cael ei roi i weithwyr fod yn addas ar gyfer eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.

7.2 Bydd angen hyfforddiant ychwanegol ar yr unigolion sy'n gyfrifol am ddyletswyddau mewn perthynas â diogelwch tân (ar ben yr hyfforddiant i weithwyr eraill), hynny yw, unigolion sy'n gwirio/profi offer, dyfeisiau neu systemau, unigolion sydd wedi'u henwebu yn farsialiaid tân sy'n cynorthwyo ynghylch gwacáu adeilad mewn achos o dân ac unigolion sydd wedi'u henwebu i gynorthwyo pobl anabl sydd â Chynllun Personol Gadael Mewn Argyfwng.

Rhaid i unrhyw weithwyr sydd wedi'u henwebu i ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol o ran diogelwch tân fod yn gymwys ar gyfer eu swyddogaethau.

7.3 Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys cynnal ymarferion tân i brofi effeithlonrwydd ac addasrwydd y gweithdrefnau tân a'r cynlluniau gwacáu.

Dylid cynnal o leiaf dau ymarfer tân y flwyddyn ym mhob adeilad (mewn rhai adeiladau efallai mai peth doeth fyddai cynnal mwy na dau ymarfer, er enghraifft, ar ddechrau pob tymor mewn ysgolion).

8. DYLETSWYDDAU GWEITHWYR

8.1 Mae'n ofynnol i weithwyr gydymffurfio â'r holl weithdrefnau diogelwch tân.

8.2 Mae'n ddyletswydd ar weithwyr i roi gwybod i'w rheolwr llinell am unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio'n andwyol ar ddiogelwch tân.

8.3 Chaiff gweithwyr ddim camddefnyddio unrhyw offer, system, dyfais (ac ati) sy'n cael ei ddarparu/darparu mewn modd sy'n creu perygl o ran diogelwch tân.

9. COFNODION

9.1 Mae'n hanfodol bod cofnodion diogelwch tân priodol yn cael eu cadw a'u bod nhw ar gael i Swyddogion Tân sy'n dod i'w harchwilio gan fod y cofnodion yn brawf bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau o dan y Gorchymyn.

9.2 Rhaid cadw'r cofnodion canlynol, ynghyd ag unrhyw rai eraill sy'n briodol ar gyfer yr adeilad penodol:

- manylion unrhyw ymweliadau gan Swyddogion Tân;
- yr asesiad risg diogelwch tân, ynghyd ag unrhyw fesurau a gafodd eu rhoi ar waith o ganlyniad;
- manylion y profion/gwiriadau mewnol sy'n cael eu cynnal ar yr offer, dyfeisiau a systemau megis larymau tân, goleuadau argyfwng a'r offer diffodd tân;
- manylion y gwiriadau profion/gwiriadau mewnol sy'n cael eu cynnal ar lwybrau dianc, dyfeisiau sy'n dal drysau ar agor a'r mecanweithiau cloi ar yr allanfeydd terfynol megis bolltau panig a'r rheiny sy'n datgloi drysau yn electronig;
- manylion y camau sy'n cael eu cymryd pan fydd y profion/gwiriadau yn datgelu diffygion;
- profion/gwasanaethu cyfnodol gan gontractwyr arbenigol ar offer a systemau diogelwch tân, megis systemau larwm tân a goleuadau argyfwng ac offer diffodd tân;
- manylion unrhyw alwadau diangen a'r camau sy'n cael eu cymryd i atal y rhain rhag digwydd eto;
- trefniadau a gweithdrefnau diogelwch tân gan gynnwys, lle bo hynny'n briodol, unrhyw gynllun personol gadael mewn argyfwng sydd wedi'i baratoi ar gyfer person anabl;

- manylion unrhyw bobl sydd â chyfrifoldebau ychwanegol mewn perthynas â diogelwch tân, er enghraifft, marsialiaid tân;
- manylion gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant diogelwch tân sy'n cael eu darparu ar gyfer gweithwyr;
- manylion ymarferion tân, gan gynnwys cyfarfodydd ôl-drafod dilynol, unrhyw faterion a ddaeth i'r amlwg mewn cyfarfodydd o'r fath a'r mesurau a gafodd eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r materion hynny;
- tystiolaeth o waith monitro gan reolwyr safle/adeilad i sicrhau bod gwiriadau/profion mewnol gofynnol yn cael eu cynnal yn iawn (lle nad ydyn nhw'n cynnal gwiriadau/profion o'r fath eu hunain).

10. CYNGOR

10.1 Mae modd cael cyngor ar weithredu'r polisi yma oddi wrth y Garfan Iechyd a Diogelwch, Adnoddau Dynol, Tŷ Elái, Trewiliam, CF40 1NY, rhif ffôn 01443 425531.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg

HS20

RHESTR WIRIO RHEOLWYR SAFLE/ADEILAD

	✓ Fel y bo'n briodol		
	Dd/B	✓	X
• Oes asesiad risg ar gyfer diogelwch tân wedi'i gynnal ar gyfer yr adeilad?			
• Ydych chi'n trefnu mesurau i fynd i'r afael â'r materion a ddaeth i'r amlwg yn yr asesiad risg?			
• Ydych chi wedi nodi dyddiad unrhyw ailesiad risg neu wedi cysylltu â'r Adran Eiddo Corfforaethol a/neu'r ymgynghorydd asesu risg i drefnu ailasesiad?			
• Ydych chi'n deall y bydd angen i chi hysbysu'r ymgynghorydd asesu risg am unrhyw newid sylweddol i'ch adeilad?			
• Ydych chi'n deall bod angen i chi lenwi holiadur blynyddol i adolygu asesiadau risg diogelwch tân?			
• Ydych chi'n deall bod rhaid i chi roi gwybod i Adran Eiddo a Charfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor am unrhyw ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â thân?			
• Os ydych chi'n rhannu adeilad gydag unrhyw gyflogwr arall, ydych chi'n deall bod rhaid i chi ymgynghori a chydweithredu â'r unigolyn sydd wedi'i benodi gan y cyflogwr arall i fod yn gyfrifol am ddiogelwch tân?			
• Oes trefniadau a gweithdrefnau diogelwch tân priodol ar waith gan gynnwys, lle bo angen, gynlluniau personol gadael mewn argyfwng ar gyfer pobl anabl?			
• Oes llwybrau ac allanfeydd addas a digonol, wedi'u nodi'n addas gan arwyddion, ac a yw'r rhain yn cael eu harchwilio, eu profi a'u cynnal mewn cyflwr effeithlon?			
• Ydy unrhyw oleuadau argyfwng yn cael eu harchwilio, eu profi a'u cynnal mewn cyflwr gweithio effeithlon (gan gynnwys gwiriadau/profion mewnol)?			
• Ydy unrhyw system canfod tân a larymau tân yn cael eu harchwilio, eu profi a'u cynnal mewn cyflwr gweithio effeithlon (gan gynnwys gwiriadau/profion mewnol)?			
• Ydy unrhyw offer diffodd tân yn cael ei archwilio, ei brofi a'i gynnal mewn cyflwr gweithio effeithlon (gan gynnwys gwiriadau/profion mewnol)?			
• Ydy unrhyw ddyfeisiau, offer neu systemau diogelwch tân yn cael eu harchwilio, eu profi a'u cynnal mewn cyflwr gweithio effeithlon (gan gynnwys gwiriadau/profion mewnol)?			

• Ydy gwybodaeth ddealladwy a pherthnasol ynghylch diogelwch tân wedi cael ei rhoi i'r gweithwyr?			
• Ydy gwybodaeth ddealladwy a pherthnasol wedi cael ei rhoi i gyflogwyr allanol neu unigolion hunangyflogedig sy'n gweithio yn yr adeilad / ar y safle ynghylch y risgiau sydd wedi'u nodi yn yr asesiad risg, y mesurau ataliol ac amddiffynnol sydd wedi'u rhoi ar waith a'r bobl sy'n gyfrifol am y mesurau hynny?			
• Ydy'r gweithwyr, gan gynnwys y rheiny sydd â chyfrifoldebau ychwanegol, wedi cael hyfforddiant priodol ynglŷn â diogelwch tân?			
• Ydy ymarferion tân yn cael eu cynnal o leiaf ddwywaith y flwyddyn?			
• Ydy cyfarfodydd ôl-drafod yn cael eu cynnal ar ôl ymarferion tân ac ydy mesurau yn cael eu gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sydd wedi dod i'r amlwg mewn cyfarfodydd o'r fath?			
• Oes llyfr cofnodi materion tân ar gyfer yr adeilad/safle?			
• Ydy'r holl wybodaeth berthnasol ar faterion diogelwch tân yn cael ei nodi yn y llyfr cofnodi materion tân?			
• Ydych chi'n diweddaru'r system RAMIS yn ôl yr angen, ac ydych chi'n gwirio bod contractwyr arbenigol yn gwneud hynny hefyd ac yn hysbysu Adran Cynnal a Chadw'r Cyngor os oes unrhyw broblemau?			
• Oes gweithdrefnau monitro ar waith i sicrhau bod gofynion y polisi yn cael eu bodloni?			

Wedi'i llenwi gan: ..... (Llofnod)

Enw: ..... (Llythrennau bras)

Swydd: .....

Dyddiad: .....

Wedi'i gadarnhau gan: ..... (Llofnod)

Enw: ..... (Llythrennau bras)

Swydd: .....

Dyddiad: .....